

## LLEUCU LLWYD

Mae Lleucu Llwyd yn rhan o un o storïau caru tristaf Cymru. Roedd hi'n byw ar fferm Dolgelynen ger afon Dyfi tua chanol y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac yn ôl y sôn roedd hi'n ferch ifanc hardd iawn.

Syrthiodd Lleucu mewn cariad â bardd ifanc, Llywelyn Goch ap Meurig Hen, ond roedd ei thad yn anfodlon i'r berthynas barhau a gwnaeth bopeth o fewn ei allu i wahanu'r cariadon ifanc.

Yn ystod eu carwriaeth, bu rhaid i Lywelyn Goch deithio i dde Cymru, ond addawodd ddychwelyd i briodi Lleucu. Pan oedd o i ffwrdd, gwelodd tad Lleucu ei gyfle, a dywedodd wrth ei ferch fod Llywelyn wedi'i bradychu ac wedi priodi merch arall. Torrodd Lleucu ei chalon a bu farw.

Dychwelodd Llywelyn i Ddolgelynen i gadw'i addewid a phriodi Lleucu, ond pan gyrhaeddodd yn ôl, roedd ei hangladd yn cael ei gynnal a helpodd Llywelyn i'w chladdu. Yn ôl cofnodion Eglwys Sant Pedr mewn Cadwyni, Pennal, claddwyd Lleucu o dan allor yr eglwys yn 1390.

Mae stori drist Lleucu Llwyd wedi parhau'n rhan o draddodiad gwerin Cymru diolch i farddoniaeth Llywelyn Goch (1350 – 1380). Mae ei farwnad i Lleucu'n cael ei hystyried yn un o gerddi gorau'r cyfnod.